Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

# Cyngor Celfyddydau Cymru

# Diogelu: Dogfennau Ategol a Gwybodaeth Ddefnyddiol

Medi 2022

## Cynnwys

1. Adnabod cam-drin plant ........................................................1
2. Arwyddion o gam-drin ........................................................3
3. Siarad â phlant ........................................................4
4. Y camau nesaf ........................................................5
5. Camdriniaeth gan blentyn arall ........................................................7
6. Cadw cofnodion cyfrinachol ........................................................8
7. Cyfrinachedd ........................................................9
8. Partneriaeth ........................................................10
9. Adnoddau ........................................................11
Atodiad 1: Ffurflen ganiatâd ........................................................12

## Hygyrchedd

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod gwybodaeth ar gael mewn print bras, fformat hawdd i'w ddarllen, Braille, sain ac Arwyddeg. Ymdrechwn i ddarparu gwybodaeth mewn ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg a'r Saesneg ar gais.

Gweithredwn Bolisi Recriwtio Cyfle Cyfartal a chroesawn geisiadau gan bawb yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Ni fydd eich dewis iaith yn arwain at unrhyw oedi wrth ymateb.

hyderus o ran anabledd CYFLOGWR

# 1. Adnabod cam-drin plant

Dylai pawb sydd â chysylltiad â phlant a theuluoedd bob amser fod yn effro i'r arwyddion posibl o gam-drin plant. Cyfrifoldeb unrhyw sy'n gwybod neu'n drwgdybio bod plentyn yn cael niwed neu sydd mewn perygl o gael niwed yw trosglwyddo'r pryderon i'r asiantaethau sydd â'r grymoedd statudol i ymchwilio ac ymyrryd – yr adran gwasanaethau cymdeithasol a'r heddlu.

Gall cam-drin plant ddeillio o weithredoedd uniongyrchol neu drwy fethiant i ddarparu gofal rhesymol, neu'r ddau. Gall ddod drwy weithredu neu beidio â gweithredu.

Gall y canlynol gam-drin plant:

- rhieni
- aelodau o'r teulu
- gofalwyr
- cymdogion
- pobl sy'n gweithio gyda phlant
- oedolion sy'n adnabod y plentyn a'r teulu neu sy'n ddieithr

Fel arfer mae'r un sy'n cam-drin yn adnabod y plentyn. Gall plentyn hefyd gael ei gam-drin gan blentyn arall. Gall plant ddioddef hefyd mewn teuluoedd treisgar a lle mae camddefnyddio sylweddau. Dylech adnabod yr arwyddion fel y gallwch gyfeirio achosion o gamdriniaeth at yr asiantaethau diogelu.

Cofiwch nad anaf difrifol o reidrwydd yw'r arwydd cyntaf bod plentyn yn dioddef. Gall amheuon godi o sylwadau a glywch gan y plentyn neu'r bobl o'i gwmpas neu o newidiadau amlwg yn ymddygiad neu agwedd y plentyn.

Mae 4 categori arferol o gamdriniaeth:

### Cam-drin corfforol

Gall gynnwys:

- bwrw
- ysgwyd
- taflu
- gwenwyno
- llosgi â than neu â dŵr
- boddi
- mygu
- achosi niwed corfforol

Gall godi hefyd pan fydd rhiant neu ofalwr yn ffugio neu'n creu salwch mewn plentyn.

### Cam-drin rhywiol

Dyma orfodi neu ddenu plentyn i gymryd rhan mewn gweithgarwch rhywiol p'un ai bod y plentyn yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd ai peidio. Gall gynnwys:

- cyffwrdd
- gweithredoedd treiddiol neu rai nad ydynt yn dreiddiol
- edrych ar bornograffi neu ei gynhyrchu
- gwylio gweithgareddau rhywiol
- annog plant i ymddwyn mewn ffordd rywiol amhriodol

### Cam-drin emosiynol

Dyma driniaeth barhaus sy'n effeithio'n andwyol ar ddatblygiad emosiynau ac ymddygiad y plentyn.

### Esgeuluso

Dyma esgeuluso plentyn yn barhaus neu ddifrifol neu'r methiant i'w ddiogelu rhag dod i gysylltiad ag unrhyw berygl gan gynnwys oerni a newyn neu fethiant i ofalu sy'n arwain at nam sylweddol ar ei iechyd neu ei ddatblygiad gan gynnwys methu â ffynnu nad yw wedi'i achosi gan gyflwr cynhenid.

## 2. Arwyddion o gam-drin

Dyma rai arwyddion cyffredinol, posibl o gam-drin ond peidiwch â chymryd yn ganiataol o weld y rhain fod camdriniaeth yn digwydd:

- hanes neu dystiolaeth o anafiadau aml neu sy'n digwydd o hyd
- mynd dro ar ôl tro i'r ysbyty
- oedi cyn ceisio cyngor meddygol pan fo ei angen
- esboniadau gan y plentyn a'r gofalwyr am achos yr anafiadau sy'n gwrthddweud ei gilydd
- y gofalwr yn anymwybodol o anafiadau neu'n gwadu eu bodolaeth
- hunan-barch isel
- bod yn ofnus neu beidio ag ymhel â phobl eraill
- oedolyn sydd â disgwyliadau afrealistig o'r plentyn
- methu â ffynnu a pheidio â chyrraedd cerrig milltiroedd o ran datblygiad
- bod trais neu gam-drin anifeiliaid yn digwydd yn y teulu

## 3. Siarad â phlant

Pan fo plentyn yn trafod yr hyn sy'n ymddangos yn gamdriniaeth, cofiwch:

- gwrando ar y plentyn ond heb ei groesholi na gofyn cwestiynau arweiniol na gofyn iddo ailadrodd yr hanesyn
- peidio â dehongli neu ragdybio'r hyn sydd gan y plentyn i'w ddweud
- peidio â thorri ar draws y plentyn
- nodi'r drafodaeth yn gywir yng ngeiriau'r plentyn gan gynnwys y manylion: pryd? ble? pwy oedd yno? beth a ddywedwyd?
- cofnodi pob cam a gymerir o ganlyniad
- peidiwch ag addo byth y caiff y plentyn gyfrinachedd llwyr

# 4. Y camau nesaf

**Y camau i'w cymryd wrth ddod yn ymwybodol o gamdriniaeth bosibl.**

Gall pryderon godi mewn sawl ffordd, drwy ddatgeliad gan y plentyn, codi pryder gan riant neu wirfoddolwr neu fod amheuaeth o gamdriniaeth wedi codi fel arall.

Rhaid ichi a'ch rheolwr a'ch cydweithwyr ddyfeisio cynllun am sut i ymateb â honiadau o gamdriniaeth.

Dylech gofio'r canlynol:

- os yw plentyn yn datgelu camdriniaeth, rhaid ei thrafod yn ddigyffro a chefnogol
- nid yw'r plentyn byth ar fai yn y fath sefyllfa a dylech dawelu ei feddwl na wnaeth ddim o'i le o ran y gamdriniaeth ei hun neu wrth sôn amdano
- rhaid i'r plentyn wybod eich bod yn gwrando a chymryd o ddifrif ei hanesyn ac yn gweithredu i'w ddiogelu
- gwrando'n astud a gadael i'r plentyn ddweud yr hanesyn yn ei ffordd ei hun
- cofnodi'r hanesyn yng ngeiriau'r plentyn ei hun – ar y pryd os yw'n bosibl neu cyn gynted â phosibl wedyn
- peidio â mynd i fanylder am yr hanesyn ar hyn o bryd ond gwrando'n ofalus ac ymateb yn briodol a bod yn gefnogol heb ofyn cwestiynau
- rhaid i'r plentyn gael gwybodaeth ac esboniad o'r camau nesaf neu'r camau tebygol

Efallai y dechreuwch boeni am ddiogelwch plentyn drwy weld ei ymddygiad neu ei anafiadau. Weithiau mae adnabod camdriniaeth yn hawdd o ganlyniad i'w natur – anafiadau, datganiad gan dyst, gweithred gan y camdriniwr. Dylech felly gysylltu â'ch swyddog diogelu ar unwaith a thrafod y camau priodol. Os nad yw ar gael, cysylltwch â'r Prif Weithredwr.

Dro arall gall adnabod camdriniaeth ddod o broses hir a chymhleth o gasglu ac asesu gwybodaeth gan wahanol ffynonellau. Yn y fath achosion, mae'n gasgliad yn dod o nifer o ffactorau yn hytrach nag un digwyddiad. Gall ymwneud yn gynharach â'r sefyllfa hefyd arwain at ganlyniadau gwell i'r plentyn.

Yn aml esboniad y plentyn o'r anafiadau a'r amgylchiadau sy'n hanfodol i ddeall y gamdriniaeth. Mae siarad â phlant yn bwysig, yn enwedig y rhai â sgiliau cyfathrebu arbennig oherwydd oed neu anabledd. Rhaid cofnodi'r cyfathrebiadau a'r holl wybodaeth berthnasol.

Rhaid peidio â dibynnu ar y plentyn ei hun i gychwyn y broses o ymateb i'r gamdriniaeth. Rhaid osgoi'r posibilrwydd o fethu â diogelu plant a rhaid gweithredu lle drwgdybiwch fod cam-drin yn digwydd. Lles y plentyn sy'n hollbwysig.

Rhaid cael trafodaeth i gael y materion yn glir a chytuno ar y ffordd ymlaen.

Rhaid hefyd sicrhau bod rheolwyr ar y lefel gywir yn rhan o'r broses benderfynu. Ond peidiwch â gohirio cymryd camau ar frys (os oes angen eu cymryd) i ddiogelu plentyn oherwydd absenoldeb swyddog neu reolwr penodol.

# 5. Camdriniaeth gan blentyn arall

Rhaid delio â honiadau neu bryderon am gam-drin plentyn gan blentyn arall drwy'r broses ddiogelu ond yn hynod ofalus.

Camdriniwyd llawer i blentyn sy'n cam-drin plant eraill. Felly rhaid ystyried anghenion y 'camdriniwr' a'r 'camdriniedig' a'u diogelu drwy unrhyw broses ac ymchwiliad gan yr heddlu a all godi.

Mae bwlio'n wahanol i gam-drin ond gall ei ragflaenu. Felly dylech ddelio ag ef yn effeithiol. Peidiwch â gobeithio y bydd bwlio'n diflannu ohono ei hun. Gall ymateb priodol atal y bwlio. Rhaid rhoi neges glir na oddefir bwlio a gallai arwain at eithrio'r un cyfrifol, fel y cam olaf.

# 6. Cadw cofnodion cyfrinachol

Dylech gofnodi'n ysgrifenedig, yn gywir ac yn fanwl bob pryder ac unrhyw drafodaeth am les plentyn os cymerwch gamau wedyn ai peidio.

Dylai'r cofnod fod yn gwbl glir i rywun arall sy'n ei ddarllen am darddiad a rheswm y pryderon. Dylai pob trafodaeth ddiweddu â chytundeb ysgrifenedig, manwl a chlir i nodi pwy fydd yn cymryd unrhyw gamau neu na fydd angen camau pellach. Dylai'r cofnod nodi'r hanesyn neu'r honiad, gan gynnwys amgylchiadau unrhyw ddatgeliad a phwy oedd yno a beth ddigwyddodd ac ati. Nodwch bob cam dilynol hefyd. Cadwch y cofnodion yn ddiogel mewn lle dan glo gyda mynediad cyfyng iddo. Mae gan reolwyr gyfrifoldeb dros gadw cofnodion yn gyfrinachol a'u datgelu'n briodol i unrhyw un perthnasol a dim ond y rheiny. Cadwch gyfrinachedd y cofnodion wrth eu trosglwyddo ar lafar, drwy'r post neu'n electronig.

# 7. Cyfrinachedd

Ym mhob achos o gam-drin, neu berygl o gam-drin, rhaid rhannu pob gwybodaeth berthnasol ymhlith gweithwyr ac asiantaethau priodol. Diogelwch y plentyn sy'n cymryd pob blaenoriaeth. Mae llwyddiant cydweithio amlddisgyblaethol yn dibynnu ar gyfnewid a rhannu gwybodaeth.

Rhaid dehongli rheolau cyfrinachedd proffesiynol yng ngoleuni'r angen i ddiogelu'r plentyn. Ni ddylech addo byth gyfrinachedd llwyr i'r plentyn oherwydd ar ôl dechrau ymchwiliad diogelu, rhaid i weithwyr eraill fel yr heddlu neu weithwyr cymdeithasol ddod i wybod am y gamdriniaeth.

Dylai rhieni a phlant gael gwybod y rhennir gwybodaeth berthnasol i ddiogelu plant. Mae'n bwysig peidio ag addo cyfrinachedd llwyr i blentyn yn y gobaith y bydd yn datgelu camdriniaeth wedyn. Ni allwch gadw addewid o'r fath am fod rhaid trosglwyddo rhai mathau o wybodaeth i ddiogelu plant. Dylai rhieni a phlant hefyd gael gwybod bod angen weithiau gyflwyno gwybodaeth fel tystiolaeth i'r llys.

Os dywed aelod o'r cyhoedd ei fod yn amau camdriniaeth, efallai y gofynnai am aros yn ddienw ac efallai y câi sicrwydd na ddatgelid ei enw. Ond gall cymryd camau wedyn i ddiogelu plentyn arwain y rhiant neu'r gofalwr i ddyfalu pwy yw'r person. Hefyd weithiau mae'r llys yn gorchymyn datgelu enw'r person mewn amgylchiadau eithriadol. Ond dylech ddweud wrth y person mai'r plentyn mewn perygl posibl yw'r flaenoriaeth yma.

## 8. Partneriaeth

Mae Deddf y Plant yn seiliedig ar yr egwyddor o gydweithio rhwng asiantaethau a theuluoedd. Bydd yn haws cyflawni hyn pan anogwch y rhieni a'r plant i fod yn rhan o bob cam priodol o'r ymchwiliad. Nod hyn yw lles y plentyn ac ni ddylai'r ymdrechion i gydweithio beryglu'r plentyn. Rhaid bod pob sefydliad gwirfoddol wedi ymrwymo i gydweithio â'r awdurdod lleol ac asiantaethau eraill i sicrhau bod pawb yn gwybod am bolisïau, arferion a gweithdrefnau pawb arall.

Mae partneriaeth â gweithwyr ac asiantaethau eraill hefyd yn bwysig. Daw pryderon yn aml i'r amlwg am deuluoedd sy'n hysbys i un asiantaeth neu ragor dros gyfnod hir. Partneriaeth agos yw'r ffordd orau o ddiogelu plant. Rhaid i bawb felly sy'n gweithio gyda phlant wybod am y polisïau i'w diogelu.

# 9. Adnoddau

Dyma gymorth wrth adnabod yr arfer orau:

- Deddf y Plant, 1989 (fel y'i diwygiwyd)
- Deddf y Plant a Gwaith Cymdeithasol, 2017
- Cydweithio i ddiogelu pobl – cod ymarfer diogelu: Gweithio gyda'n gilydd i ddiogelu pobl: cod ymarfer diogelu | LLYW.CYMRU
- Gwybodaeth am ddod o hyd i Fyrddau Diogelu Rhanbarthol: Dod o hyd i'ch Bwrdd Rhanbarthol – Bwrdd Ddiogelu (bwrdddiogelu.cymru)
- Cadw Plant yn Ddiogel mewn Addysg. Cydweithio i Ddiogelu Plant 2018: Social Care Wales (diogelu.cymru)
- NSPCC Cymru – deddfwriaeth: https://learning.nspcc.org.uk/child-protection-system/wales
- NSPCC Cymru – cyfeiriadau: https://learning.nspcc.org.uk/child-protection-system/wales

# Ffurflen ganiatâd

Rhoddaf ganiatâd i Gyngor Celfyddydau Cymru gymryd/defnyddio ffotos/fideos o'm grŵp/perfformiwr/plentyn a chytuno i adael i'r Cyngor atgynhyrchu'r ffotos mewn papurau newydd a phrint, gwefannau a deunyddiau hyrwyddo pan fo angen.

Deallaf y gellid defnyddio'r ffotos neu'r cyfryngau ar gyfer deunydd sy'n hyrwyddo cynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol* am byth. Gallai hyn gynnwys mewn ffyrdd golygyddol, masnachol, hysbysebu neu ar y wefan a'r cyfryngau cymdeithasol ac mewn arddangosfeydd.

Yn achos ysgol, cadarnha'r llofnodwr hefyd fod ganddo'r awdurdod, ar ran yr ysgol a enwir ac ar ran y rhieni neu warcheidwaid y disgyblion a restrir, i roi caniatâd ar eu rhan a bod yr ysgol yn cadw ffurflenni rhyddhau ar gyfer pob disgybl.

Enw unigolyn/ysgol: ........................................................

Llofnod:.................................... Dyddiad:.....................